Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Glyn Jones OBE
Pennaeth
Grŵp Llandrillo Menai
Ffordd Llandudno
Llandrillo-yn-rhos
Bae Colwyn, Conwy
LL28 4HZ

Awst 2014

Annwyl Mr Jones

**Adroddiad Estyn ar Adolygiad Blynyddol o Berfformiad ar gyfer Grŵp Llandrillo Menai**

Yn dilyn ymweliad yr Adolygiad Blynyddol o Berfformiad â'ch sefydliad ar 4 i 6 Mehefin 2014, mae'r llythyr hwn yn ffurfio adroddiad blynyddol ar sail canlyniadau'r ymweliad hwnnw.  Caiff y llythyr ei gyhoeddi ar wefan Estyn.

Arfarnodd Gill Sims AEM a Liam Kealy AEM berfformiad presennol y sefydliad ac adolygu'r cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhellion yn deillio o arolygiadau blaenorol.

Cynhaliodd yr arolygwyr drafodaethau â'r pennaeth ac uwch reolwyr, tiwtoriaid, dysgwyr ac aelodau o'r corff llywodraethol.  Gwnaethant graffu ar ddogfennaeth, gan gynnwys tystiolaeth ar y cynnydd a wnaed yn erbyn pob un o argymhellion yr arolygiad blaenorol.  Hefyd, gwnaethant ystyried ansawdd addysgu a dysgu drwy deithiau dysgu a chraffu ar broses arsylwi'r darparwr.

Ar ddiwedd yr ymweliad, adroddodd yr arolygwyr cyswllt ar eu canfyddiadau i bennaeth y sefydliad ac aelodau eraill o'r uwch dîm arweinyddiaeth.

**Canlyniad yr ymweliad gan yr arolygwyr cyswllt**

## 1 Deilliannau a safonau

Ffurfiwyd Grŵp Llandrillo Menai yn 2012 drwy uno Coleg Llandrillo a Choleg Menai.  Roedd Coleg Llandrillo wedi uno'n flaenorol â Choleg Meirion Dwyfor yn 2010.  Y data perfformiad ar gyfer 2011-2012 a 2012-2013 yw data cyfunol Coleg Llandrillo a Choleg Menai.

Mae Grŵp Llandrillo Menai wedi gwella cyfraddau llwyddo, ar y cyfan, ar draws pob cwrs o un pwynt canran dros y ddwy flynedd diwethaf.  Fodd bynnag, mae'r cymharydd cenedlaethol wedi cynyddu ar gyfradd fwy ac mae'r Grŵp wedi symud o fod uwchlaw'r cymharydd cenedlaethol i fod yn unol ag ef rhwng 2011-2012 a 2012-2013.  Yn yr un cyfnod, mae cyfraddau cwblhau ar draws pob cwrs wedi cynyddu un pwynt canran, ac maent wedi disgyn o fod ychydig uwchlaw'r cymaryddion cenedlaethol i fod yn unol â nhw.  Ar gyfer cwblhad a chyrhaeddiad ar draws pob cwrs, mae'r Grŵp yn y chwarter uchaf o'r holl golegau yng Nghymru.

Mae cyrsiau byr yn cynrychioli 84% o gyfanswm yr ymrestriadau yn y Grŵp.  Mae mwyafrif y sectorau pwnc wedi gwella cyfraddau llwyddo eu cyrsiau hir rhwng 2011-2012 a 2012-2013.  Mae astudiaethau yn seiliedig ar dir (amaethyddiaeth, garddwriaeth a gofal anifeiliaid) yn faes pwnc pwysig ar gyfer y Grŵp ac, ar hyn o bryd, mae cyfraddau llwyddo yn y maes hwn chwe phwynt canran yn uwch na'r cymharydd cenedlaethol.  Gwellodd cyfraddau llwyddo mewn peirianneg a thechnolegau gweithgynhyrchu dri phwynt canran rhwng 2011-2012 a 2012-2013, ac maent wedi parhau saith pwynt canran uwchlaw'r cymharydd cenedlaethol i fod yr uchaf yn y sector.

Mae cyfraddau llwyddo cyrsiau hir mewn adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig, ac mewn celfyddydau perfformio, wedi disgyn dros y ddwy flynedd diwethaf ac yn parhau islaw'r cymaryddion cenedlaethol.  Mae cyfraddau cwblhau llwyddiannus mewn lletygarwch ac arlwyo wedi aros ar 94% am y ddwy flynedd diwethaf ac wedi aros uwchlaw'r cymharydd cenedlaethol.  Ar gyfer y sector pwnc hwn, mae'r coleg yn y chwarter uchaf o'r holl golegau o hyd.

Mae cyfraddau cwblhau ar gyrsiau hir wedi gwella tri phwynt canran rhwng 2011-2012 a 2012-2013 i fod un pwynt canran uwchlaw'r cymharydd cenedlaethol ac yn rhoi'r coleg yn y chwarter uchaf o'r holl golegau yng Nghymru.  Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr sydd wedi eu hymrestru ar gyrsiau hir yn cyflawni eu cymwysterau.  Gwellodd cyrhaeddiad ar draws pob pwnc ddau bwynt canran yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, ac mae'r coleg yn yr hanner uchaf o'r holl golegau o hyd.

Mae cyfraddau cwblhau a chyrhaeddiad ar gyfer cyrsiau byr uwchlaw'r cymaryddion cenedlaethol.  Mae bron pob dysgwr yn cwblhau eu cyrsiau ac mae'r Grŵp yn y chwarter uchaf o'r holl golegau yng Nghymru.

## 2 Medrau hanfodol

Mae trefniadau effeithiol ar waith i wella cyfraddau llwyddo cyrsiau medrau hanfodol mewn meysydd pwnc sector.  Mae'r timau medrau hanfodol ac ansawdd yn cydweithio'n dda â'i gilydd i nodi cyrsiau â deilliannau isel, a gwneir defnydd da o baneli perfformiad i roi cynlluniau adfer ar waith i wella cyfraddau llwyddo.

Mae'r Grŵp yn gweithio'n dda i wella medrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr.  Mae disgwyl i staff arbenigol pob pwnc gwblhau hyfforddiant mewn ymwybyddiaeth o fedrau hanfodol a chymorth.  O ganlyniad, maent yn gallu cynnwys datblygu medrau yn well yn eu haddysgu ac mewn llunio cyrsiau.  Mae'r gweithgor medrau hanfodol wedi cyflwyno cynllun marcio llythrennedd cyffredin i staff i helpu dysgwyr i wella cywirdeb eu gwaith ysgrifenedig.  Hefyd, mae'r Grŵp wedi cyflwyno ysgol targedau

medrau llythrennedd i helpu staff i osod targedau penodol i ddysgwyr unigol ar y lefel briodol.  Mae staff hefyd yn arfarnu ansawdd cyflwyno medrau hanfodol fel rhan arferol o'u harsylwadau o addysgu a dysgu.

Mae'r Grŵp yn mynd y tu hwnt i ddefnyddio profion cychwynnol a diagnostig i asesu medrau hanfodol dysgwyr.  Yn ystod y cwrs ymsefydlu, caiff tasg gyffredin ei gosod i ddysgwyr ac mae tiwtoriaid yn rhoi adborth iddynt ar eu gwaith.  O ganlyniad, gall staff osod targedau penodol a pherthnasol i ddysgwyr unigol yn well.

Mae gan y Grŵp ystod o gymorth ar gael i ddysgwyr i wella eu medrau hanfodol, gan gynnwys hyfforddiant un-i-un, cymorth dosbarth cyfan a gwaith grŵp.  Mae tiwtoriaid personol yn monitro cynnydd dysgwyr tuag at gyflawni eu targedau medrau hanfodol yn rheolaidd.  Mae hyn yn cynnwys dysgwyr yn cyflwyno ac yn trafod eu gwaith â'u tiwtoriaid personol.

Mae uno'r Grŵp wedi galluogi dysgwyr mewn medrau byw'n annibynnol a dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol i gael profiad o gwricwlwm cymdeithasol ehangach.  Mae athrawon ac arweinwyr rhaglenni yn cysylltu'n dda â'i gilydd ar draws campysau i ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr ryngweithio mewn ystod fwy amrywiol o sefyllfaoedd cymdeithasol ac ag ystod eang o ddysgwyr.  Mae enghreifftiau'n cynnwys 200 o ddysgwyr yn ymweld â phentref Portmeirion a'r dysgwyr hyn yn ymuno â disgyblion ystod ar gyfer y Gemau Olympaidd Medrau Byw'n Annibynnol yn Llandrillo-yn-rhos.

## 3 Addysgu ac asesu

Mae gan y Grŵp bolisïau a gweithdrefnau effeithiol i arfarnu a gwella ansawdd addysgu ac asesu ar draws pob campws.  Yn fuan ar ôl uno'r colegau, gwnaed gwaith helaeth i bennu proses arsylwi gyffredin.  Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar ansawdd addysgu a dysgu ac wedi cyfrannu at y deilliannau uchel ar gyfer addysgu a gofnodwyd yn arolwg llais y dysgwr.

Mae creu swydd newydd rheolwr addysgu a dysgu wedi cael effaith gadarnhaol ar ansawdd asesu ac wedi arwain at welliannau mewn addysgu.  Mae arsylwadau gwersi'n gadarn a chaiff y wybodaeth o'r rhain ei defnyddio'n dda i lywio camau gweithredu ar gynlluniau datblygu unigol athrawon, ac i nodi meysydd ar gyfer datblygiad cyffredinol staff.

Mae mentoriaid addysgu a dysgu'n darparu rhwydwaith cynorthwyol i athrawon wella eu harfer.  Maent yn cynnig cyngor ac arweiniad ac mae ganddynt bolisi agored i unrhyw athrawon arsylwi eu dosbarthiadau eu hunain.  Maent yn cydweithio'n effeithiol fel tîm, ac â'r rheolwr addysgu a dysgu, i gynhyrchu rhaglen o ddigwyddiadau hyfforddi staff sydd wedi ei strwythuro'n dda.  Caiff y rhain eu cynllunio, fel y bo'n berthnasol, ar lefel campws neu'r Grŵp cyfan.  Mae'r rhan fwyaf o athrawon amser llawn yn mynychu digwyddiadau hyfforddi'r Grŵp yn rheolaidd.

Yn ogystal â hyfforddiant mewnol, caiff staff gyfleoedd da iawn i nodi eu hanghenion hyfforddiant eu hunain a manteisio ar ystod eang o gyfleoedd am ddatblygiad proffesiynol parhaus (DPP).  Mae llawer o'r staff y siaradwyd â nhw yn ystod yr ymweliad wedi manteisio ar gyfleoedd defnyddiol i fynychu seminarau pwnc penodol,

hyfforddiant sector galwedigaethol neu ymweld â sefydliadau eraill yng Nghymru a'r tu hwnt i arsylwi arfer bresennol.

Mae'r Grŵp yn nodi tanberfformiad yn effeithiol ac mae ganddo systemau cadarn ar waith i gynorthwyo staff i wella eu harfer.

## 4 Cwricwlwm

Mae'r Grŵp yn cynllunio ei gwricwlwm yn dda iawn i sicrhau ei fod yn bodloni anghenion dysgwyr, cyflogwyr a'r gymuned. Mae uwch reolwyr yn gwneud defnydd strategol o wybodaeth am y farchnad lafur ar lefel ranbarthol a chenedlaethol i sicrhau bod dysgwyr yn ennill y medrau a'r cymwysterau sydd eu hangen ar gyfer y gweithle. Yn gyffredinol, mae gan reolwyr meysydd rhaglen a staff addysgu gysylltiadau cryf iawn â'r diwydiannau a'r sectorau y maent yn gweithio ynddynt. Mae hyn yn golygu y gallant gynnwys arfarniadau a chyfraniadau cyflogwyr wrth lunio a chyflwyno cyrsiau.

Mae'r Grŵp yn cydweithio'n dda â'r sectorau peirianneg ac ynni ar lefel strategol. Ar hyn o bryd, mae'n cyflwyno ystod o gyrsiau i gyflogwyr mawr yn y sectorau hyn. Er enghraifft, mae'n darparu hyfforddiant pwrpasol i staff Scottish Power, REW a Siemens. Mae'r Grŵp wedi datblygu canolfan ynni ar ei safle yn Llangefni mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru. Mae Scottish Power a Hitachi wedi cyfrannu adnoddau sylweddol i'r cwricwlwm yn Llangefni, ynghyd â Magnox ar safle Dolgellau ac RWE yn Llandrillo. Mae'r Grŵp hefyd yn cydweithio'n dda â'r sector arlwyo a lletygarwch i gynnal academi hyfforddiant ar Ynys Môn, ac â'r sector manwerthu i gynnal academi yn y Rhyl. Mae'r Grŵp yn cynnal tîm medrau coginio Cymru ar un o'i gampysau.

Mae'r pwyllgorau cwricwlwm ac ansawdd a rheolwyr meysydd rhaglen yn sicrhau cysondeb yn y cwricwlwm ac yn cynllunio dilyniant i ddysgwyr. O ganlyniad, mae cyrsiau ar gael i ddysgwyr ar y lefel gywir ar draws y Grŵp, a gall dysgwyr symud ymlaen i lefelau dysgu uwch. Gall dysgwyr weld yn glir y llwybrau dilyniant sy'n arwain o'r lefelau dysgu is, drwy brentisiaethau a graddau sylfaen, i addysgu uwch. Mae'r Grŵp wedi gweithio'n dda i sicrhau bod cysondeb yn y cyrff dyfarnu ar gyfer cymwysterau mewn meysydd sector pwnc.

## 5 Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae tîm rheoli a chorff llywodraethol y Grŵp yn cyfuno'n dda iawn i osod cyfeiriad strategol a blaenoriaethau'r Grŵp. Maent yn darparu cymorth cryf ar gyfer blaenoriaethau strategol rhanbarthol, gan gynnwys mentrau economaidd a menter, datblygiadau'r bwrdd gwasanaethau lleol a'r ddarpariaeth 14-19. Mae hyn wedi arwain at waith partneriaeth effeithiol â diwydiannau ac ysgolion yn yr ardal i ddatblygu'r cwricwlwm.

Mae'r corff llywodraethol yn darparu cymorth cryf iawn, her sylweddol a lefel uchel o arbenigedd i'r tîm rheoli. Mae'n gweithredu ei rôl o ran gosod cyfeiriad strategol y Grŵp ac yn goruchwylio ei lywodraethu'n dda iawn. Mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth dda iawn o berfformiad presennol y Grŵp. Maent yn cydweithio'n dda â'r rheolwyr a'r tîm ansawdd i graffu ar ddeilliannau a chytuno ar gynlluniau ar gyfer

gwella.  Mae'r corff llywodraethol mewn sefyllfa dda i fodloni gofynion deddfwriaeth ddiweddar.

Yn ddiweddar, mae'r Grŵp wedi ailstrwythuro'r rheolwyr i gryfhau ei ffocws ar y cwricwlwm, gwella deilliannau i ddysgwyr a chysondeb ar draws campysau.  Mae'r strwythur newydd, a lansiwyd fis Mehefin, wedi arwain at resymoli nifer a maint y meysydd rhaglen a mwy o gydraddoldeb o ran cyfrifoldeb a llwyth gwaith.  Hefyd, mae'r Grŵp wedi ad-drefnu ystod o wasanaethau eraill, gan gynnwys gwasanaethau cymorth i ddysgwyr, cynllunio'r cwricwlwm, ansawdd a pherfformiad, ac ymgysylltu â rheolwyr a chyflogwyr, er mwyn cynyddu cymorth a her a staff meysydd cwricwlwm.

Mae'r Grŵp yn cynnwys dysgwyr yn dda wrth osod ei gyfeiriad strategol a dod â materion dysgwyr at sylw'r corff llywodraethol.

## 6 Arweinyddiaeth a rheolaeth (sicrhau ansawdd)

Mae gan y Grŵp ffocws cryf ar safonau a pherfformiad.  Mae hyn yn sbarduno gwelliannau ar lefel meysydd cwricwlwm ac ar draws campysau.

Gwna'r Grŵp ddefnydd da o ddata a dangosfyrddau data i ddadansoddi perfformiad ar lefelau meysydd cwricwlwm a phrif gymwysterau.  Caiff meddalwedd fasnachol ei defnyddio'n dda i helpu staff unigol i olrhain perfformiad ar eu cyrsiau.  Mae paneli perfformiad yn effeithiol o ran gwella deilliannau ar lefel cyrsiau a chytuno ar gynlluniau gwella.

Mae'r grwpiau ansawdd a chwricwlwm yn gweithio'n dda iawn i wella cysondeb ac ansawdd, ac i rannu data ac arfer dda ar draws campysau.

## 7 Crynodeb o gynnydd yn erbyn argymhellion yr arolygiad blaenorol

Mae Grŵp Llandrillo Menai wedi gweithio'n dda i adolygu'r cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhellion o'r arolygiadau o Goleg Llandrillo yn 2005, Coleg Menai yn 2006 a Choleg Meirion Dwyfor yn 2007.  Bodlonwyd yr holl argymhellion ac mae'r coleg wedi nodi meysydd perthnasol i'w gwella ac wedi symud y rhain ymlaen i'r adroddiad hunanasesu cyfredol a'r cynllun datblygu ansawdd.

## 8 Arall

Mae'r Grŵp yn hyrwyddo cydweithio mewn darpariaethau 14-19 ar draws pob sir yn dda, ac yn aml yn cynnal cyfarfodydd traws-sirol.  Mae'r Grŵp wedi gweithio'n helaeth trwy gydol y cyfnod uno i sicrhau bod dysgwyr yn yr ardal yn cael y cyfleoedd mwyaf i fanteisio ar ddarpariaeth yng nghyd-destun eu hardal a'u diwylliant lleol.

Mae'r rheolwyr 14-19 yn cynrychioli'r Grŵp yn effeithiol mewn cyfarfodydd sirol ac maent wedi gweithio'n dda â'r awdurdodau lleol i sicrhau bod amserlenni cyffredin yn galluogi dysgwyr i fanteisio'n briodol ar y cwricwlwm llawn sydd ar gael.  Mae rheolwyr 14-19 y Grŵp hefyd yn cydweithio'n dda iawn ar draws y campysau i rannu gwybodaeth ac arfer orau.

Mae dewis eang o gyrsiau ar draws y campysau, sy'n darparu ystod eang o gyfleoedd a phrofiadau dysgu i ddysgwyr. Yn y flwyddyn bresennol, mae 1,582 o ddisgyblion 14 i 19 oed o ysgolion ledled gogledd Cymru yn mynychu rhaglenni yn y coleg. O'r rhain, mae 80% ohonynt rhwng 14 ac 16 oed. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n dilyn rhaglenni 14-19 yn symud ymlaen i gyrsiau galwedigaethol neu academaidd amser llawn.

**Llais y dysgwr**

Mae'r Grŵp wedi gweithio'n arbennig o dda drwy gydol yr uno i sicrhau y caiff llais y dysgwr ei glywed. Mae'n defnyddio ystod eang ac effeithiol o ddulliau i gasglu barn dysgwyr, yn gwrando'n ofalus ac yn ymateb yn brydlon i awgrymiadau, ymholiadau a cheisiadau dysgwyr.

Ymestynnwyd porth y dysgwyr eleni. Yn ogystal ag olrhain eu cynlluniau dysgu unigol, cynnydd ac aseiniadau, mae dysgwyr yn defnyddio'r porth yn effeithiol iawn i fynegi eu barn ac i ganfasio a phleidleisio ar gyfer swyddi fel rolau'r cynrychiolwyr dosbarthiadau dysgu a'r llywydd dysgwyr.

Gwna'r Grŵp ddefnydd helaeth o borth y dysgwyr i ymateb i faterion sy'n cael eu codi gan ddysgwyr ar lefel cyrsiau, adrannau, campysau a'r coleg cyfan. Mae hyn yn galluogi'r Grŵp i esbonio'r rhesymau am ei benderfyniadau a chyhoeddi atebion i gwestiynau cyffredin. Mae hyn wedi cyfrannu at y deilliannau cadarnhaol yn adroddiad llais y dysgwr, lle mae bron pob un o'r ymatebion uwchlaw cyfartaleddau'r sector.

Cwblhaodd 3,871 o ddysgwyr yng Ngrŵp Llandrillo Menai arolwg llais y dysgwr yn 2014. O'r rhain, roedd 2,930 ohonynt yn ddysgwyr amser llawn a 941 ohonynt yn ddysgwyr rhan-amser.

Mae 42% o'r dysgwyr amser llawn o'r farn bod eu coleg yn dda iawn, at ei gilydd. Mae hyn saith pwynt canran uwchlaw cyfartaledd y sector. Mae 38% arall o'r farn bod y coleg yn dda. Dywed 88% o ddysgwyr amser llawn bod eu cwrs yn well na'r hyn yr oeddent yn ei ddisgwyl, neu'n cyfateb i'r hyn yr oeddent yn ei ddisgwyl. Mae hyn un pwynt canran yn uwch na chyfartaledd y sector.

At ei gilydd, mae ymatebion dysgwyr yn erbyn y pedair thema allweddol dri i bum pwynt canran yn uwch na chyfartaleddau'r sector. Addysgu a hyfforddi yw'r sgôr uchaf, sef 47%, ac mae hyn tri phwynt canran yn uwch na chyfartaledd y sector. Mae 36% arall o'r farn bod yr addysgu a'r hyfforddi yn dda.

Dywed 54% o ddysgwyr bod y coleg yn 'dda iawn' am sicrhau eu bod yn teimlo'n ddiogel, a dywed 37% arall bod hyn yn 'dda'. Nid oes yr un dysgwr wedi dweud bod y coleg yn wael neu'n wael iawn yn erbyn y mesur hwn.

Daw'r sgorau uchaf yn holiadur llais y dysgwr gan ddysgwyr mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, manwerthu a menter fasnachol, ac addysg a hyfforddiant. Peirianneg a thechnolegau gweithgynhyrchu, ac adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig sydd â'r sgorau isaf o'r niferoedd mwyaf sylweddol o ymatebion.

Dywed y rhan fwyaf o'r dysgwyr y cawsant gynnig y cyfle i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog wrth ddechrau ar eu cyrsiau.

**Yr iaith Gymraeg**

Mae'r Grŵp yn gweithio'n dda i adlewyrchu cyd-destun Cymraeg yr ardal a'r cymunedau y mae'n gweithio ynddynt.  Gwna ddefnydd effeithiol o wybodaeth y cyfrifiad a data gan ysgolion i ragfynegi a monitro'r galw am addysg Gymraeg ar draws y rhanbarth.  Mae'n gwneud defnydd da o dargedau i fonitro a chynyddu cyflenwad dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a lefel yr asesiadau cyfrwng Cymraeg.  Gwneir defnydd da o'r cynllun iaith Gymraeg a'r cynllun gweithredu i nodi anghenion presennol a gosod camau gweithredu a thargedau ar gyfer gwella.

Mae'r Grŵp yn gweithio i gynorthwyo siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf i ymgymryd â'u dysgu a'u hasesu yn Gymraeg.  Mae hefyd yn rhoi cymorth da i ddysgwyr eraill i ddatblygu medrau cyflogadwyedd Cymraeg mewn meysydd pwnc blaenoriaeth.

At ei gilydd, mae bron i hanner y staff yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf, gan gynnwys 40% o'r staff addysgu.  Mae cymorth da i staff addysgu wella eu medrau iaith Gymraeg.  Mae llawer o'r staff wedi cymryd rhan mewn rhaglen sabothol Gymraeg.  Mae'r Grŵp yn gweithio mewn partneriaeth â Sgiliaith i helpu staff i addysgu'n ddwyieithog, a bu hyn yn ddefnyddiol iawn i'r staff sy'n addysgu grwpiau dwyieithog.  Mae gan y coleg gynlluniau defnyddiol ar waith i recriwtio mwy o siaradwyr Cymraeg a helpu staff eraill i ddatblygu eu medrau Cymraeg.

**Argymhellion**

Er mwyn gwneud y gwelliannau angenrheidiol mewn modd amserol, dylai'r sefydliad:

A1 Monitro ac arfarnu effaith y strwythur rheoli newydd

A2 Monitro'r gwelliant arfaethedig mewn meysydd cwricwlwm sy'n tanberfformio, yn benodol o ran safonau medrau

**Camau nesaf**

Bydd Gill Sims a Liam Kealy yn parhau i fonitro cynnydd cyffredinol drwy eu rôl cyswllt â'r sefydliad.

Yn gywir

**Lin Howells**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol